CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau | Dyddiad: | Dydd Iau, 6 Medi 2012 |
| | | Rhif Union: | 01824 706204 |
| | | ebost: | dcc_admindenbighshire.gov.com.uk |

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 14 MEDI 2012** am **10.00 am** yn **CONFERENCE ROOM 1, TY NANT, NANT HALL ROAD, PRESTATYN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13eg Gorffennaf 2012 (copi'n amgaeëdig).

**5 MYNYCHU CYFARFODYDD**

Cydnabod presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**6 PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Derbyn adroddiad llafar gan Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar y materion a drafodwyd yng nghyfarfod Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 17eg Gorffennaf 2012.

**7 DIGWYDDIADAU HYFFORDDI COD YMDDYGIAD** (Tudalennau 13 - 16)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi'n amgaeëdig) yn gofyn i'r Pwyllgor gydnabod a chymeradwyo'r digwyddiadau hyfforddi ar y Cod Ymddygiad sydd wedi eu trefnu ledled Sir Ddinbych ar gyfer Cynghorwyr Sir ac aelodau cynghorau tref a chymuned.

**8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.

**RHAN 2: EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym mharagraffau 13 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**9 CWYNION COD YMDDYGIAD** (Tudalennau 17 - 18)

Derbyn adroddiad cyfrinachol (copi'n amgaeëdig) sy'n rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o'r cwynion a anfonwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n berthnasol i gynghorau sir, tref neu gymuned yn Sir Ddinbych.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**AELODAETH**

Aelodau Annibynnol:
**Error! No document variable supplied.**

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:
**Error! No document variable supplied.**

Cynghorwyr Sir:
**Error! No document variable supplied.**

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR SAFONAU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda, Ty Nant, Prestatyn ar Dydd Gwener, 13 Gorffennaf 2012 am 10.00 y.b.

**YN BRESENNOL**

C. B. Halliday (Cadeirydd), Ms M Medley, Mrs P White a/ac G F Roberts ynghyd â'rCouncillors David Jones a/ac William Cowie

**HEFYD YN BRESENNOL**

Swyddog Monitro (MO) (GW) a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (RAH)

**YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb oddi wrth Y Cynghorydd Colin Hughes

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Colin Hughes.

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Datganodd y Cynghorydd W.L. Cowie fuddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yn eitem rhif 8 ar y Rhaglen.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar ddydd Gwener 9fed Mawrth 2012 a'u cymeradwyo gan eu bod yn cynrychioli cofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf. Yna darllenodd y Pwyllgor trwy'r cofnodion ar gyfer materion yn codi.

Hysbysodd y Swyddog Monitro y Pwyllgor bod digwyddiadau hyfforddi diweddar ar gyfer y Cyngor newydd wedi gweld presenoldeb da iawn. Roedd hyfforddiant pellach wedi ei drefnu ar gyfer Medi i loywi gwybodaeth yr Aelodau, a chadarnhawyd bod hyfforddiant Cod Ymarfer i'w ymestyn i swyddogion perthnasol.

Protocol Hunan-reoli – adroddodd y Swyddog Monitro bod y Cyngor Llawn wedi derbyn yr argymhellion a gynigiwyd gan y Pwyllgor yn y cyfarfod blaenorol, a gofnodwyd dan benderfyniadau b), c) a d). Hysbyswyd Cynghorau Tref a Chymuned o'r newidiadau i Gyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych, yn unol â phenderfyniad e), ac roeddynt wedi cytuno mabwysiadu'r newidiadau hyn.

Holodd Mr G.F. Roberts os oedd y Cod Ymarfer wedi ei anfon i glercod newydd Cynghorau Cymuned a dywedodd y Swyddog Monitro, er nad oedd hyn yn digwydd yn awtomatig ar hyn o bryd, y gellid trefnu bod clercod newydd yn derbyn copi o'r Cod Ymarfer. Nodwyd bod gan Gynghorau Cymuned godau ymarfer unigol, ond bod y rhain yn dilyn craidd o egwyddorion a oedd yn bertnasol i holl Gynghorau Tref a Chymuned, ac y gallai'r Cynghorau wedyn eu haddasu i'w gofynion hwy eu hunain.

***PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

**5 MYNYCHU CYFARFODYDD**

Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roddi adborth ar gyfarfodydd Cynghorau Tref, Cymuned neu Sir a fynychwyd ganddynt yn ddiweddar.

Hysbysodd Mrs M.E. Medley y Pwyllgor iddi fynychu cyfarfod Cyngor Cymuned Henllan ar 11eg Mai. Adroddodd Mrs Medley iddi gael peth anhawster gwahaniaethu rhwng unigolion a oedd yn eistedd ar y Cyngor Cymuned fel aelodau etholedig ac aelodau'r cyhoedd, a bod tuedd i nifer fechan o unigolion fod â mwy o ddylanwad ar y gweithgareddau nag aelodau eraill, ond dywedodd bod y cyfarfod wedi bod yn eithaf effeithiol o ben i ben. Nododd hefyd bod Clerc Cyngor Cymuned Henllan yn ymgymryd â'r un rôl ar gyfer nifer o Gynghorau Cymuned eraill, a all gael effaith ar sut roedd gwaith y Cynghorau hyn yn cael ei ymgymryd, ond pwysleisiwyd mai sylw oedd hyn yn hytrach na mater Cod Ymarfer.

***PENDERFYNWYD** - cydnabod y seyllfa.*

**6 PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddariad llafar ar y materion a drafodwyd yn ddiwedd yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 23ain Ebrill 2012, ac fe ddosbarthwyd copïau o'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod i aelodau'r Pwyllgor.

Adroddwyd bod yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru yn bresennol a rhoddodd ragolwg o Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2011/12, a drafodwyd yn fanwl wedyn dan eitem 10. Roedd yr adroddiad yn amlinellu dull newydd o weithio a fyddai'n rhoi fframwaith ar gyfer archwilio cwynion nad oeddynt, ar ôl asesiad rhagarweiniol, yn cael eu hystyried yn rhai digon difrifol i warantu cosb. Dan drefniadau presennol, ni fyddai achosion lle na ystyriwyd bod y digwyddiad yn torri'r Cod yn ddigon difrifol i warantu archwiliad yn mynd ymhellach, ond roedd yr adroddiad yn cynnig bod achosion o'r fath nawr yn cael eu cyfeirio at swyddogion monitro lleol neu bwyllgorau safonau, a fyddai'n medru ymgymryd ag archwiliad ar lefel leol.

Hysbyswyd y Pwyllgor o drafodaeth a gafwyd ar gynnig i ddodi cap ar indemniaeth er mwyn amddiffyn yn erbyn costau cyfreithiol yn mynd yn uchel a oedd yn deillio o

faterion a oedd ar y gweill nawr. Awgrymwyd ffigwr o £10,000 fel lefel briodol ar gyfer y cap, ond roedd yn well gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyfyngiad o £20,000. Cadarnhawyd bod indemniaeth yn ad-daladwy os cadarnhawyd cosb yn erbyn aelod am dorri'r Cod Ymarfer.

Rhoddwyd cyflwyniad hefyd gan Swyddog Datblygu Un Llais Cymru a oedd yn nodi'r gwasanaethau a'r hyfforddiant a oedd ar gael i Cynghorau Tref a Chymuned.

Holodd Mr G.F. Roberts os oedd yr ystadegau presenoldeb cadarnhaol ar gyfer hyfforddiant Cynghorwyr Sir i'w hadrodd yng nghyfarfod nesaf Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ar 17eg Gorffennaf. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro na fyddai ef, na'r Dirprwy Swyddog Monitro yn medru mynychu'r cyfarfod, ond y byddai'r ffigurau presenoldeb yn cael eu hanfon ymlaen cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *- cydnabod y trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru.*

## 7 CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn manylu argymhellion gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, y mae gofyn i Gyngor Sir Ddinbych eu gweithredu dan adran 153 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Esboniodd y Swyddog Monitro gyd-destun yr adolygiad, gan nodi pwysau gwleidyddol i ostwng lwfansau fel y brif ffactor y tu cefn i bennu un gyfradd a fyddai'n berthnasol ledled Cymru i sicrhau tegwch wrth dalu cynghorwyr sir ac aelodau cyfetholedig gyda hawliau pleidleisio.

Pennodd y Panel bod yn rhaid talu'r 'cyflogau' canlynol ar gyfer aelodau cyfetholedig:

Cadeirydd Cyfetholedig, Pwyllgor Safonau, £256/Diwrnod a £128/Hanner Diwrnod

Aelod Cyfetholedig, Pwyllgor Safonau, £198/Diwrnod a £99/Hanner Diwrnod

Roedd uchafswm o ddeg diwrnod y flwyddyn yn daladwy ar gyfer pob pwyllgor i'r hwn y gellir cyfethol unigolyn, a chyfyngwyd taliadau treuliau angenrheidiol am ofalu am blant / dibynyddion i £403/mis. Roedd y cyfraddau teithio a chynhaliaeth presennol i aelodau pwyllgor i'w cadw. Roedd cyfraddau talu wedi eu gweithredu a byddai'r taliadau ar gyfer Ebrill a Mai yn cael eu haddasu yn unol â hynny.

Roedd nifer 'Uwch Gyflogau' y gallai awdurdod lleol eu talu i gynghorwyr hefyd wedi eu cyfyngu mewn cyfrannedd i faint cymharol pob awdurdod. Roedd Cyngor Sir Ddinbych yn medru talu 17 o uwch gyflogau dan y trefniant hwn, ond nodwyd bod y Cyngor wedi dewis talu Uwch Gyflog mewn 15 rôl yn unig.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro ei bod yn orfodol i Gyngor Sir Ddinbych dalu'r cyfraddau hyn, ond mai mater i unigolion oedd dewis os hoffent hawlio'r treuliau ai peidio.

***PENDERFYNWYD*** *– cydnabod argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2012/13.*

## 8 GOLLYNGIAD – CYNGOR DINAS LLANELWY

Roedd y Cynghorydd W. L. Cowie wedi cofrestru buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yn yr eitem hon, a chan nad oedd gan aelodau eraill y Pwyllgor unrhyw gwestiynau penodol yn ymwneud â threfniadaeth Cyngor Dinas Llanelwy y byddai'r Cynghorydd Cowie mewn sefyllfa i'w hateb, gadawodd y Cynghorydd Cowie yr ystafell er mwyn medru cychwyn ar y drafodaeth ar gais Cyngor Dinas Llanelwy am ollyngiad.

Esboniodd y Swyddog Monitro bod llythyr wedi ei anfon at gynghorau tref a chymuned yn gofyn a fyddai unrhyw rai o'r cyrff hyn angen unrhyw fath o ollyngiad. Hysbysodd Cyngor Dinas Llanelwy Gyngor Sir Ddinbych bod nifer arwyddocaol o aelodau Cyngor y Ddinas [14 i gyd] hefyd yn aelodau o grwpiau cymunedol gyda chysylltiad agos yn yr ardal (yn bennaf Grŵp Amgylcheddol Afon Elwy [6], Cymdeithas Gymunedol Llanelwy [7] a Grŵp Diogelwch Cymunedol a Threfi Taclus Llanelwy [8]), ac y byddai trafod materion a oedd yn ymwneud â'r grwpiau hyn yn anochel yn achosi datgan buddiant. Os nad oedd aelodau Cyngor y Ddinas yn medru cymryd rhan mewn trafodaeth ar faterion yn ymwneud ag unrhyw un o'r grwpiau oherwydd bod buddiant sy'n rhagfarnu, yna byddai diffyg aelodau cymwys yn golygu na fyddai gan y cyfarfod gworwm.

Mewn ebost dyddiedig 24ain Mai 2012, gofynnodd Andrew Pirie, Clerc Cyngor y Ddinas, bod gollyngiad yn cael ei roddi i aelodau Cyngor y Ddinas, a oedd hefyd yn aelodau'r grwpiau uchod, i'w caniatáu i bleidleisio ar faterion yn y rhain yr oedd buddiant sy'n rhagfarnu wedi ei ddatgan mewn perthynas â'r aelodaeth hon.

Gwaith y Pwyllgor Safonau oedd penderfynu a oedd cyfiawnhad i roddi'r gollyngiad hwn, neu a fyddai'r gollyngiad yn peryglu tanseilio hyder y cyhoedd yn y penderfyniadau a gymerwyd gan Gyngor y Ddinas.

Gofynnodd Mr Geraint Roberts pa mor debygol y byddai diffyg cworwm mewn cyfarfodydd a oedd yn trafod materion a oedd yn berthnasol i'r grwpiau cymunedol. Cadarnhaodd y Swddog Monitro, er ei bod yn bosibl y byddai cworwm mewn cyfarfodydd i drafod materion yn ymwneud â'r grwpiau hyn os oedd holl aelodau Cyngor y Ddinas yn bresennol, yn ymarferol roedd yn debygol iawn na fyddai cworwm os na fyddai aelodau gyda buddiant sy'n rhagfarnu yn cael cymryd rhan. O ganlyniad, ni fyddai Cyngor y Ddinas yn medru cymryd penderfyniad ar faterion a oedd yn berthnasol i'r grwpiau cymunedol hyn pe na roddid gollyngiad.

Nododd y Cynghorydd David Jones bod Cyngor Tref Prestatyn wedi cael gollyngiad tebyg yn y gorffennol, ond ei fod ond yn berthnasol i un cyfarfod. Dywedodd y Swyddog Monitro bod y rheoliadau yn caniatáu hyn ac y gellir rhoi collyngiad am unrhyw gyfnod o amser, er eu bod yn berthnasol tan yr etholiad nesaf yn y rhan fwyaf o achosion.

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cais am ollyngiad i aelodau'r grwpiau cymunedol a restrwyd i barhau i gymryd rhan yn y drafodaetn ar faterion gan Gyngor Dinas Llanelwy. Byddai'r gollyngiad hwn yn berthnasol tan ddyddiad etholiad nesaf Cyngor y Ddinas.*

## 9 CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU

Rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddariad i'r Pwyllgor yn ei hysbysu o fesurau yr oedd angen eu cymryd i benodi dau aelod annibynnol newydd y Pwyllgor Safonau pan fyddai cyfnod y Cadeirydd, Mr Clive Halliday, a'r Is-gadeirydd, Mr Geraint Roberts, yn y swydd yn dod i ben ym mis Medi. Byddai cyfnod Mrs Paula White yn dod i ben ond cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei bod yn gymwys i wasanaethu am dymor arall. Byddai cyfnod y Cynghorydd David Jones yn y swydd yn rhedeg yn unol ag amserlen etholiad Cynghorau Tref a Chymuned, ond roedd ef hefyd yn gymwys i wasanaethu am dymor arall yn amodol ar gadarnhad gan y Cynghorau Tref a Chymuned.

Byddai'r ddwy swydd yn cael eu hysbysebu cyn gynted ag y bo modd gyda golwg ar gadarnhau trefniadau recriwtio yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 11eg Medi. Y bwriad oedd cynnal cyfweliadau gan Banel Dethol Ymgynghorol, gyda'r penodiadau yn cael eu cadarnhau yn ffurfiol gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 9fed Hydref. Esboniodd y Swyddog Monitro y byddai angen hefyd penodi i rolau ar wahân Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau, gydag etholiad i'w chynnal o blith aelodau'r Pwyllgor Safonau yn hytrach na'r Cyngor Sir.

Nododd yr aelodau yr amserlen gymharol dynn ar gyfer recriwtio dau aelod annibynnol newydd ond rhoddodd y Swyddog Monitro sicrhad y byddai'r penodiadau wedi eu cwblhau mewn pryd.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r trefniadau i benodi dau aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau.*

## 10 ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o ddarganfyddiadau Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2011/12, o'r enw 'Gwella Mynediad: Cyflawni Gwelliant'. Roedd yr adroddiad wedi ei nodi fel eitem gyfrinachol yn wreiddiol ond gan fod Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ar gael i'r cyhoedd, penderfynwyd y gellid ystyried yr eitem dan Ran I, rhan y cyfarfod a oedd yn agored i'r cyhoedd.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion cynnydd 49% yn y nifer o gwynion Cod Ymarfer o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda 412 o gwynion ar wahân wedi eu derbyn. Roedd 39% o'r cwynion hyn yn ymwneud â materion o 'gydraddoldeb a pharch' a 25% yn ymwneud â 'gwrthrychedd a phriodoldeb'. O'r cwynion hyn, cafodd 270 eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol.

Nododd yr Ombwdsmon bod nifer o'r cwynion yn ymwneud â Chyngorau Tref a Chymuned, gyda Chyngor Tref Prestatyn yn cael ei enwi'n benodol fel ffynhonnell nifer anghymesur o fawr o gwynion. Gellid priodoli hyn i grŵp bychan o gynghorwyr ac aelodau penodol y cyhoedd. Roedd yr Ombwdsmon wedi gohebu â Chlerc Cyngor Tref Prestatyn mewn ymgais i ddelio â'r diwylliant o ddibwysedd a gelyniaeth, ac roedd cytundeb ymarfer rhwng aelodau wedi ei ddatblygu. Gobeithid y byddai ethol 10 aelod newydd i'r cyngor tref hefyd yn cael effaith gadarnhaol o ran newid diwylliant y cyngor.

Nododd y Swyddog Monitro bod adroddiad yr Ombwdsmon yn rhoi neges glir bod camddefnyddio'r fecanwaith gwyno yn annerbyniol ac y byddai swyddfa'r Ombwdsmon yn cymryd mesurau i wrthannog cyflwyno cwynion heb sylfaen. Rhoddodd yr Adroddiad fanylion pellach y newidiadau trefniadol a chyflwyniad cap ar indemniaeth a grybwyllwyd yn y drafodaeth ar Eitem 6.

Gwnaed naw o gwynion Cod Ymarfer yn erbyn Cyngor Sir Ddinbych yn ystod 2011/12, pump o'r rhain nad oeddynt wedi eu hystyried ymhellach. Ystyriwyd ei bod yn briodol cynnal sesiwn Rhan 2 y cyfarfod er mwyn trafod y cwynion hyn yn fanwl briodol.

***PENDERFYNWYD** – bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cydnabod cynnwys Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2011/12.*

**11 CWYNION COD YMARFER**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad cyfrinachol a oedd yn manylu natur y cwynion Cod Ymarfer yn erbyn Cyngor Sir Ddinbych a chynghorau tref a chymuned ers 1af Ebrill 2012, a chynigiodd ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed yn delio â hwy.

Roedd un gŵyn yn erbyn cyn-gynghorydd Cyngor Sir Ddinbych wedi ei chadarnhau am fethu â dangos parch ac ystyriaeth i eraill. Pennwyd cerydd gan Banel Dyfarnu Cymru ond ni fyddai cosbau anghymhwyso yn berthnasol gan nad oedd y cynghorydd dan sylw wedi ei ailethol yn etholiadau lleol mis Mai. Nid oedd penderfyniad llawn y Panel Dyfarnu wedi ei gyhoeddi eto ar wefan Panel Dyfarnu Cymru, ond byddai'n cael ei ddiweddaru yn y man, a dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'n holi i weld os oedd angen i Gyngor Sir Ddinbych gyhoeddi canlyniad yr archwiliad ar wefan y Cyngor.

Archwiliwyd pum cwyn arall ond nid aethpwyd ymlaen â hwy, ac fe dynnwyd un gŵyn yn ôl. Roedd archwiliadau yn mynd rhagddynt ar bedair cwyn, un yn ymwneud â Chyngor Sir Ddinbych a thair yn ymwneud â Chyngor Tref Prestatyn, a rhoddodd y Swyddog Monitro grynodeb o bob un o'r honiadau hyn a'r cynnydd ar bob archwiliad.

Rpedd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi ei drefnu ar gyfer dydd Gwener 7fed Medi, ond dywedodd y Swyddog Monitro y gallai'r dyddiad hwn newid, i'r 14eg Medi i ddilyn cyfarfod y Cyngor Sir ar 11eg Medi. Byddai aelodau'r Pwyllgor yn cael eu hysbysu pe byddai dyddiad y cyfarfod nesaf yn newid. Gofynnodd y Cynghorydd

David Jones a ellid trefnu bod dyddiadau cyfarfodydd a manylion cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu dosbarthu, a chytunodd y Swyddog Monitro fynd ar ôl hyn.

***PENDERFYNWYD** – bod y Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd ar y cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy’n ymwneud â Chyngor Sir Ddinbych a Chynghorau Tref a Chymuned lleol.*

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Eitem Rhif ar y Rhaglen**

**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Safonau**

**ADRODDIAD GAN:** **Swyddog Monitro**

**DYDDIAD:** **14eg Medi 2012**

**PWNC:** **DIGWYDDIADAU HYFFORDDI, COD YMDDYGIAD AELODAU**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

Rhoi i'r Aelodau fanylion Digwyddiadau Hyfforddi ar y Cod Ymddygiad y mae'r Swyddog Monitro yn eu cynnig i holl Gynghorau Tref a Chymuned. Bydd croeso i aelodau'r Pwyllgor Safonau fynychu rhai neu bob un o'r digwyddiadau hyn.

## 2 CEFNDIR

2.1 Rôl y Pwyllgor Safonau yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Aelodau a'u cynorthwyo i gadw at y Cod Ymddygiad.

2.2 Darparodd y Swyddog Monitro sesiwn hanner diwrnod ar God yr Aelodau yn fuan ar ôl yr etholiadau eleni i Gynghorwyr Sir, a chafwyd cofnodion presenoldeb rhagorol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd safiad y Cyngor ar fabwysiadu diwygiad i'r Cod Ymddygiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Aelodau fynychu o leiaf un digwyddiad hyfforddi ar y Cod yn ystod un cyfnod llawn yn y swydd.

2.3 Mae'r hyfforddiant hwn nawr yn cael ei gynnig i holl Gynghorau Tref a Chymuned ac mae rhaglen o ddigwyddiadau ynghlwm yn Atodiad 1 yn hysbysu Aelodau'r Pwyllgor Safonau o'r dyddiadau a'r lleoliadau. Fel yn y blynyddoedd a aeth heibio, mae croeso i Aelodau'r Pwyllgor Safonau fynychu'r digwyddiadau hyn.

## 3 ARGYMHELLIAD

Bod yr Aelodau'n cydnabod y digwyddiadau hyfforddi ac yn cytuno, os oes modd, bod Aelodau'n mynychu.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## HYFFORDDIANT CÔD YMDDYGIAD 2012

**De y Sir**

| | | |
|---|---|---|
| Sesiwn Dydd<br>**2 y.h. - 5 y.h.** | Dydd Mercher 26 Medi | Airbus Suite, Ectarc Centre, Llangollen |
| Sesiwn gyda'r nos<br>**7 y.h. - 9.30 y.h.** | Dydd Mercher 03 Hydref | Pafiliwn Chwaraeon Corwen |

**Rhyl & Prestatyn**

| | | |
|---|---|---|
| Sesiwn Dydd<br>**2 y.h. - 5 y.h.** | Dydd Llun 08 Hydref | Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Y Rhyl |
| Sesiwn gyda'r nos<br>**7 y.h. - 9.30 y.h.** | Dydd Llun 22 Hydref | Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Y Rhyl |

**Gogledd y Sir**

| | | |
|---|---|---|
| Sesiwn Dydd<br>**2 y.h. - 5 y.h.** | Dydd Mercher 21 Tachwedd | Fountain Suite, Oriel House, Llanelwy |
| Sesiwn gyda'r nos<br>**7 y.h. - 9.30 y.h.** | Dydd Mercher 05 Rhagfyr | Fountain Suite, Oriel House, Llanelwy |

**Canol y Sir**

| | | |
|---|---|---|
| Sesiwn Dydd<br>**2 y.h. - 5 y.h.** | Dydd Mercher 12 Rhagfyr | Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun |
| Sesiwn gyda'r nos<br>**7 y.h. - 9.30 y.h.** | Dydd Iau 20 Rhagfyr | Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag